Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymateb i bandemig Covid-19 yng Nghymru

Llais ac eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Trydar: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Cynnwys

Rhagair	04
Ymgysylltu, Dylanwadu a Chraffu	06
Diogelu Hawliau Pobl Hŷn	11
Diogelu a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal	14
Sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd a gofal	19
Cefnogi pobl hŷn sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin	21
Siapio Adferiad Cymru	24
Y tu hwnt i'r pandemig: Adeiladu ar bartneriaethau a mentrau newydd	27

Rhagair

Fe effeithiodd y pandemig Covid-19 ar bob un ohonom mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan greu problemau a heriau newydd yn ein bywydau bob dydd ac, yn anffodus, arweiniodd at golli nifer sylweddol o fywydau, sydd wedi achosi tristwch a galar i lawer o deuluoedd.

Roedd pobl hŷn yn canfod eu hunain wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig a'i effaith a thrwy gydol y cyfnod hwn galwais yn rheolaidd i amrywiaeth profiadau pobl hŷn gael ei hadlewyrchu yn yr ymateb i, a'r adferiad, o Covid-19.

Pan ddechreuodd y pandemig, fe newidiodd fy ngwaith yn sylweddol, gyda hyd yn oed mwy o bwyslais ar ymgysylltu â phobl hŷn a gwrando arnynt, ochr yn ochr â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth; sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal ar draws ystod o leoliadau; craffu ar benderfyniadau a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am eu gweithredoedd; galw am weithredu a chynnig datrysiadau, gan gynnwys hyrwyddo arfer da.

Er i fy ngwaith ganolbwyntio yn y cyfnod hwn ar fy mhedair egwyddor – diogelu hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda – mae fy nhîm a minnau hefyd wedi gorfod delio â materion newydd amrywiol, yn arbennig y rhai sy'n effeithio ar y bobl hŷn sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl hŷn sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Cafodd fy ngwaith a'm ceisiadau i weithredu yn ystod y pandemig eu llywio a'u siapio gan wybodaeth a thystiolaeth hollbwysig a rannwyd gan bobl hŷn ledled Cymru, a hoffwn fynegi fy niolch i bawb a ymgysylltodd â fy swyddfa i rannu eu barn a chefnogi fy ngwaith fel Comisiynydd.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl sefydliadau a ddarparodd dystiolaeth, mewnwelediad ac arbenigedd ar ystod o faterion a fy helpu i gysylltu ac ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru, a dosbarthu gwybodaeth ac adnoddau. Mae llawer o'r partneriaethau llwyddiannus a ffurfiwyd yn ystod y pandemig wedi parhau er mwyn datblygu a chefnogi mentrau newydd i fynd i'r afael â materion allweddol a dylanwadu ar bolisi ac arfer ledled Cymru a'r DU.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i fy nhîm am eu holl waith caled yn ystod y pandemig, yn addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio i sicrhau y gallem ddatblygu camau gweithredu hollbwysig ar ran pobl hŷn.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd yn y ddwy flynedd o fis Mawrth 2020 i fis Mawrth 2022. Mae'n ceisio darparu mewnwelediad i ehangder profiadau pobl hŷn yn ystod y pandemig a'r heriau sylweddol a wynebwyd gan bobl, yn ogystal â phwysleisio'r camau gweithredu a'r newid yr wyf wedi galw amdanynt ar ran pobl hŷn (mae gwybodaeth bellach ac adroddiadau llawn ar gael ar fy ngwefan, neu cysylltwch os hoffech dderbyn copïau papur).

Drwy'r adroddiad cyfan hwn, rwyf eisiau sicrhau nad yw graddau'r materion hyn ac, yn bwysicach, y gwersi y gallwn eu dysgu i ddiogelu a chefnogi pobl hŷn yn fwy effeithiol yn y dyfodol, yn cael eu colli wrth i ni ddelio â heriau newydd a rhai sy'n datblygu.

Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn helpu i sicrhau bod Cymru yn lle y mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, mae hawliau'n cael eu cynnal ac nid yw unrhyw un yn cael eu gadael ar ôl.

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymgysylltu, Dylanwadu a Chraffu

Ymgysylltu â Phobl Hŷn

Cyn y pandemig bu fy nhîm a minnau yn teithio ledled Cymru i gwrdd â phobl hŷn, sgwrsio gyda hwy a chael gwybod mwy am eu profiadau o heneiddio a'r mathau o gamau gweithredu sy'n galluogi pobl i heneiddio'n dda. Pan ddaeth y math hwn o ymgysylltiad yn amhosibl oherwydd y pandemig, trefnodd fy nhîm a minnau sesiynau ar-lein i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn parhau i gael eu clywed.

Ar hyd y pandemig, cynhaliais sesiynau ymgysylltu ar-lein gyda phobl hŷn i sicrhau y gallwn glywed yn uniongyrchol am eu profiadau, yn ogystal â'r materion a'r heriau roedden nhw'n eu hwynebu oherwydd y pandemig, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed, eu cofnodi ac y gellid gweithredu arnynt.

Cyfarfod pwysig yr oeddwn yn ei gael yn rheolaidd oedd gyda Chadeiryddion sefydliadau pobl hŷn – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru a Senedd Pobl Hŷn Cymru. Fe wnaethant rannu'r pethau yr oedd eu haelodau yn eu profi, y cwestiynau a oedd ganddynt a'u syniadau am bethau yr oedd angen eu newid. Fe wnaethant hefyd rannu gwybodaeth ac adnoddau yr oeddwn wedi'u cynhyrchu ar bynciau amrywiol gyda'u haelodau a rhwydweithiau i gyrraedd llawer mwy o bobl hŷn.

Roedd sesiynau ymgysylltu ar faterion penodol yn cynnwys ymgysylltu â phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng ngogledd a de Cymru er mwyn casglu tystiolaeth hollbwysig ar gyfer fy adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal, ac archwilio sut y gallai pobl hŷn gefnogi a chael eu cefnogi gan adferiad Cymru o'r pandemig, a oedd yn ffurfio sail i fy adroddiad Gadael Neb Ar Ôl a fy ngalwad am gamau gweithredu.

Ffocws penodol oedd ymgysylltu â phobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ymgysylltu yn benodol ar gyfer pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gweithio gyda Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST Cymru) i gwrdd ag aelodau'r fforwm er mwyn i mi allu clywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am eu profiadau yn ystod y pandemig, a'r rhwystrau a'r anawsterau arbennig yr oeddynt wedi'u hwynebu.

Defnyddiais ystod eang o wybodaeth a phrofiadau a gasglwyd drwy fy ngwaith ymgysylltu i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau oedd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac i lywio fy ngwaith, fy nghynlluniau a fy mlaenoriaethau.

Storïau'r Gaeaf

Er mwyn cael dealltwriaeth fwy manwl o'r materion penodol yr oedd pobl hŷn yn eu hwynebu yn ystod Gaeaf 2020, a'r anawsterau a barhaodd yn ystod 2021, penderfynais gynnal prosiect a oedd yn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu casglu ac y gellid eu defnyddio i ddylanwadu ar newid a gwelliannau, gan weithio gydag ymchwilydd o Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia Prifysgol Abertawe (CADR).

Ymgysylltodd yr ymchwilydd â chyfanswm o 23 o bobl hŷn o bob rhan o Gymru, a oedd yn rhannu eu profiadau yn rheolaidd am eu bywydau yn ystod y gaeaf, gan gynnwys unrhyw

gynlluniau a chamau gweithredu yr oeddynt wedi'u rhoi ar waith i'w helpu drwy fisoedd y gaeaf, a'r pethau a wnaeth wahaniaeth cadarnhaol ac unrhyw faterion a oedd yn gwneud bywyd yn anos.

Darparodd y wybodaeth a gasglwyd drwy'r prosiect Storïau'r Gaeaf ddiweddariadau 'amser real' i mi drwy'r gaeaf o'r mathau o anawsterau a heriau y gallai pobl hŷn eu hwynebu, gan fy helpu i nodi materion a chefnogi fy ngalwadau i weithredu.

Yn ogystal, darparodd y prosiect dystiolaeth a oedd yn pwysleisio'r rhwystrau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, a lle'r oedd angen gwelliannau, a oedd yn fy helpu i ddylanwadu ar gynlluniau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn arbennig wrth i gynlluniau gael eu gwneud i baratoi ar gyfer Gaeaf 2021.

Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl hŷn

Roedd sicrhau y gallai pobl hŷn gael mynediad at wybodaeth hanfodol am reoliadau a chanllawiau, a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, a'r ffyrdd y gallai pobl gadw eu hunain yn ddiogel, yn flaenoriaeth allweddol i mi ar hyd y pandemig.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chefnogaeth i gannoedd o bobl hŷn a'u teuluoedd drwy fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth, fe wnes hefyd ddosbarthu gwybodaeth allweddol i bobl hŷn drwy fy rhwydweithiau a'm cysylltiadau, gan gynnwys Cadeiryddion sefydliadau pobl hŷn.

Yn ogystal, datblygais a chynhaliais hwb gwybodaeth ac adran holi ac ateb am y coronafeirws ar fy ngwefan i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad cyfredol i bobl hŷn a'u teuluoedd, yn ogystal â manylion am wasanaethau a chymorth sydd ar gael mewn cymunedau ledled Cymru.

Fe weithiais hefyd mewn partneriaeth ag Age Cymru i ddatblygu adran holi ac ateb penodol am y brechlyn Covid19, gan ddarparu ystod o wybodaeth am ei ddiogelwch a'i effeithlonrwydd, yn ogystal â manylion am gyflwyno'r brechlyn ei hun.

Ymwelwyd â'r tudalennau hyn dros 12,500 o weithiau gan fwy na 4,600 o unigolion yn ystod 2020-21 yn unig, ac roeddynt yn parhau i fod ar gael ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd hyd at Haf 2022.

Dosbarthwyd gwybodaeth allweddol a chyngor ymarferol i bobl hŷn drwy fy sianelau cyfryngau cymdeithasol, a chafodd ei rhannu a'i hail-bostio yn helaeth. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am help a chymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.
- Codi ymwybyddiaeth am y Fenter 'Gofyn am Ani', sy'n galluogi pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin i ofyn am gymorth gyda disgresiwn mewn fferyllfeydd.
- Pwysleisio sgamiau posibl sy'n gysylltiedig â'r pandemig a chyflwyno'r brechlyn.
- Cynghorion i helpu pobl hŷn i fynd ar-lein a defnyddio apiau i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.
- Gwybodaeth am hawlio Credyd Pensiwn.

O fis Mawrth 2020 i fis Mawrth 2022, llwyddais i estyn allan i fwy na 424,000 o unigolion drwy Facebook, a sicrhaodd fy mhostiadau Twitter fwy na 1.7 miliwn o 'argraffiadau' (y nifer o weithiau y gwelir Trydariad).

Defnyddiais y sianelau hyn hefyd i rannu gwybodaeth allweddol arall gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill, i sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

Yn ogystal, sefydlais grŵp Facebook newydd – Mewn Undod Mae Nerth – a oedd yn darparu gofod i bobl hŷn, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gysylltu a sgwrsio, gofyn cwestiynau a chanfod gwybodaeth am yr help a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Tyfodd aelodaeth y grŵp ar hyd y pandemig, gan sicrhau mwy na 300 o aelodau.

Parheais i ddosbarthu copïau papur o fy nghylchlythyr i bobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru, i ddarparu gwybodaeth allweddol a diweddariadau i bobl a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yn ogystal â datblygu ac argraffu canllawiau gwybodaeth newydd i bobl hŷn – er enghraifft fy llyfryn Mynnwch Help Cadwch yn Ddiogel wedi'i anelu at bobl hŷn sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin – a ddosbarthwyd ledled Cymru.

Y Cyfryngau

Ar hyd y pandemig, defnyddiais y cyfryngau i siarad ar ran pobl hŷn, a phwysleisio materion a phryderon allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, yn arbennig pan oedd hawliau pobl hŷn yn wynebu risg bosibl.

Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau ar y teledu a'r radio, yn ogystal â sylw ar-lein ac yn y cyfryngau argraffedig, ar faterion fel cyfathrebu a phenderfyniadau yn ymwneud â Ni Cheisir Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR), hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, ymweliadau ysbyty a chartrefi gofal, allgáu digidol ac adferiad Cymru yn dilyn y pandemig.

Hefyd, gweithiais gyda sefydliadau allweddol eraill - ar lefel Cymru a'r DU - i gyhoeddi datganiadau ar y cyd, codi pryderon a galw am gamau gweithredu gyda llais cyfunol, pwerus.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus

Ar hyd y pandemig bûm yn ymgysylltu ac yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ond nid oeddwn yn oedi i'w dwyn i gyfrif pan oeddwn yn credu bod gweithredoedd wedi bod yn annigonol i ddiogelu pobl hŷn, a chodi pryderon yn gyhoeddus pan oedd angen i ysgogi newid a sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni.

Cefais gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i godi materion o bryder i bobl hŷn, pwysleisio pryd y gallai hawliau pobl hŷn fod mewn perygl, cynnig meysydd lle'r oedd angen gweithredu ac olrhain y materion hyn a sicrhau bod y wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf i bobl hŷn yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

Ochr yn ochr â hyn, cefais sawl cyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â swyddogion allweddol eraill Llywodraeth Cymru, i alw am weithredu i ddiogelu a chefnogi pobl hŷn ar draws nifer o feysydd allweddol.

Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu a siarad yn fy nigwyddiadau ar-lein hefyd gan ganolbwyntio ar opsiynau llety i bobl hŷn sy'n dianc camdriniaeth a datblygu cymunedau oed-gyfeillgar, a ddarparodd gyfleoedd i glywed a dysgu gan bobl hŷn a rhanddeiliaid.

Roeddwn hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â sefydliadau eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau nad oedd y camau yr oeddynt yn eu cymryd mewn ymateb i'r pandemig yn eithrio pobl hŷn a'u bod yn adlewyrchu eu hanghenion.

Yn ogystal, cyfranogodd aelodau fy nhîm mewn ystod eang o fyrddau cynghori a rhwydweithiau a oedd yn canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r pandemig a materion ehangach i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u deall, a'u defnyddio i siapio polisi ac arfer. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau a oedd yn cwmpasu gofal cymdeithasol, y rhaglen frechu, cynhwysiant ariannol, cynhwysiant digidol ac unigrwydd ac ynysigrwydd.

Parheais i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â monitro, craffu a dylanwadu ar y camau a'r penderfyniadau maent yn eu cymryd, wrth i gyfyngiadau godi, i helpu i sicrhau y gallai pobl hŷn gael mynediad at wasanaethau a chymorth ac nad oeddynt yn cael eu gadael ar ôl wrth i ni symud ymlaen.

Gweithio gyda Sefydliadau Eraill

Ar hyd y pandemig, roedd fy nhîm a minnau yn ymgysylltu â sefydliadau perthnasol ledled Cymru, i rannu gwybodaeth, dosbarthu negeseuon allweddol a chasglu tystiolaeth am brofiadau pobl hŷn.

Sefydlais bartneriaethau newydd i sicrhau dull gweithredu strategol, mwy cydlynus i ddatblygu'r camau gweithredu ar faterion allweddol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, a darparu cyfleoedd i godi pryderon gydag un llais, pwerus.

Sefydlais y Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin, a drafodir isod, gan ddod â sefydliadau allweddol at ei gilydd i weithio i atal cam-drin pobl hŷn a gwella ymwybyddiaeth a chymorth i'r rhai sy'n profi camdriniaeth.

Hefyd, fe wnes i gynnull sefydliadau allweddol o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Age UK, Scottish Care a'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Ngogledd Iwerddon – i archwilio materion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn a'u hawliau.

Bu'r grŵp hwn yn cydweithio yn ystod y pandemig i graffu ar y camau a gymerwyd mewn ymateb gan lywodraethau a chyrff cyhoeddus ledled y DU, gyda ffocws yn benodol ar ddiogelu hawliau pobl hŷn.

Mae'r grŵp hwn wedi cyhoeddi sawl datganiad i'r cyfryngau, yn ymwneud â materion sy'n cynnwys hawliau pobl hŷn, eu gallu i gael mynediad at driniaethau a phenderfyniadau cyffredinol ynglŷn â hysbysiadau Ni Cheisir Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR).

Derbyniodd y datganiadau hyn sylw helaeth yn y cyfryngau yng Nghymru a Lloegr ac yng ngwledydd eraill y DU, gan gynnwys dylanwadu ar sefydlu Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol Llywodraeth Cymru. Mae grŵp y DU yn parhau i weithio mewn partneriaeth heddiw ar faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Rwyf hefyd wedi gweithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i adolygu penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'r effaith y gallai'r rhain fod wedi'u cael ar hawliau pobl hŷn yn ystod y pandemig.

Rwyf wedi adeiladu ar y partneriaethau hyn er mwyn parhau i fonitro a chraffu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau'r llywodraeth ac i ysgogi newid i bobl hŷn, yng Nghymru a ledled y DU.

Diogelu Hawliau Pobl Hŷn

“Pan ydych dros 80 oed mae fel na pe baech chi’n bodoli.”

Person hŷn mewn digwyddiad ymgysylltu

Roedd profiadau pobl hŷn yn ystod y pandemig yn dangos bod ffordd bell i fynd eto nes y bydd hawliau ac agweddau ar sail hawliau wedi’u hymgorffori ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, ac fe wnaethant bwysleisio bod hawliau rhai pobl hŷn – er enghraifft pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal – yn brin iawn o gymharu â gweddill cymdeithas.

Roedd diogelu hawliau pobl hŷn yn ffocws allweddol yn fy ngwaith ar hyd y pandemig ac mae’n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn fy rhaglen waith.

Hysbysiadau Ni Cheisir Dadebru Cardio-Anadlol

Codais bryderon gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â’r defnydd o Hysbysiadau Ni Cheisir Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR), ar ôl i mi ddod yn ymwybodol bod rhai cleifion agored i newid ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys pobl hŷn wedi derbyn llythyrau yn datgan bod y feddygfa eisiau cwblhau ‘ffurflen DNACPR’ ar ran rhai unigolion ym mis Mawrth 2020, a oedd yn gwneud iddynt deimlo’n ddiwerth ac nad oedd eu bywydau’n golygu dim.

Dywedais fod y llythyr yn gywilyddus ac annerbyniol, ac roeddwn yn pryderu y gallai gohebiaeth debyg fod wedi’i dosbarthu mewn ardaloedd eraill, neu fod penderfyniadau gwahaniaethol hollgynhwysol yn cael eu gwneud ynglŷn ag opsiynau triniaethau a fyddai ar gael i bobl hŷn. Cysylltodd pobl hŷn, aelodau teuluoedd ac Aelodaeth Senedd mewn rhannau eraill o Gymru â mi a oedd yn rhannu pryderon tebyg.

Cefais gyfarfod gyda’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i alw am arweiniad a chanllawiau mwy cadarn gan fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru, i sicrhau y byddai hawliau sylfaenol pobl hŷn yn cael eu cynnal ac y byddai penderfyniadau sy’n ymwneud â DNACPR ac opsiynau triniaeth eraill yn cael eu gwneud ar sail achosion unigol.

Yn dilyn hyn, ysgrifennodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru ar y cyd at Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr GIG Cymru i’w hatgoffa o’u dyletswyddau ynglŷn â DNACPR ac ymgynghori â chleifion, gan ddatgan y pryderon a godais.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid19 hefyd, a oedd yn dod ag ystod o arbenigwyr ynghyd i ddarparu cyngor ac arweiniad ar ystyriaethau moesol, moesegol, diwylliannau penodol a ffydd, yn ogystal ag unrhyw gyfyngderau moesol a moesegol a oedd yn dod i’r amlwg, mewn cysylltiad â Covid-19.

Gwaith partneriaeth gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

Oherwydd pryderon arwyddocaol a rannwyd am brofiadau pobl hŷn yn ystod y pandemig, yn benodol y rhai a oedd yn byw mewn cartrefi gweithio, bûm yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i archwilio a oedd achosion posibl o dorri hawliau dynol pobl hŷn wedi digwydd ac asesu a oedd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol mewn ymateb i'r pandemig.

Er mwyn deall prosesau gwneud penderfyniadau, ac a oedd y dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn cyflawni cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, fe wnaethom gais ar y cyd am dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â sawl maes allweddol: profi preswylwyr a staff cartrefi gofal, mynediad at gyfarpar diogelu personol ac ymweliadau i gartrefi gofal.

Er y darparwyd rhywfaint o wybodaeth am y ffordd yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud am bolisïau allweddol, a gafodd ei chraffu gennyf i a fy nhîm, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, roedd bylchau yn y dystiolaeth ac nid oedd nifer o'r pwyntiau a godwyd gyda'r Gweinidog wedi derbyn sylw.

Felly, gofynnwyd i'r Gweinidog ddarparu tystiolaeth ychwanegol i arddangos y ffyrdd yr oedd effaith penderfyniadau allweddol wedi'i hystyried a'i hasesu.

O ystyried gwahanol rolau a phwerau fy swyddfa a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, ac er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, cytunwyd y byddai'r dystiolaeth ychwanegol hon yn cael ei hadolygu gan y Comisiwn, er mwyn penderfynu ar unrhyw gamau angenrheidiol pe byddai methiannau'n cael eu nodi a olygai nad oedd hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu'n ddigonol.

Felly, dechreuais weithio i archwilio'r gwersi yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu o'i hymateb i gamau cynnar y pandemig, a'r ffyrdd y mae'r rhain wedi'u cymhwyso i atgyfnerthu camau diogelu a hybu hawliau pobl hŷn.

Nodais nifer o newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn fy ymyrraeth gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru a'r pryderon a godwyd, gan gynnwys gwelliannau ynglŷn â'r defnydd o asesiadau effaith a chreu gweithgor newydd i wella ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff a rhannu arfer da. Yn ogystal, cynghorydd Llywodraeth Cymru eu bod wedi cynyddu eu hymgysylltiad â phobl hŷn a phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal i'w cynnwys mewn mwy o benderfyniadau.

Herio deddfwriaeth sy'n rhoi hawliau pobl hŷn mewn perygl

Rhoddodd Deddf y Coronafeirws, a basiwyd ym mis Mawrth 2020 fel ymateb ar unwaith i'r pandemig, y pŵer i awdurdodau lleol gyfyngu hawliau pobl i gael eu hanghenion wedi'u hasesu a chael mynediad at y gofal cymdeithasol yr oedd ei angen arnynt.

Er na wnaeth unrhyw awdurdod lleol ddeddfu'r mesurau hyn yn ffurfiol, roeddwn yn pryderu bod hawliau pobl hŷn yn parhau i fod mewn perygl pan oeddynt ar waith.

Felly, galwais i'r adrannau hyn o Ddeddf y Coronafeirws gael eu diddymu ar y cyfle cynharaf i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal, ac anogais bobl hŷn a sefydliadau ledled Cymru i ymuno yn fy ngalwadau i'w lleisiau gael eu clywed.

Ailadroddais fy ngalwadau i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru i Covid-19 a'i effeithiau, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn. Roedd adroddiad y Pwyllgor, 'Amlygu'r Materion: anghydraddoldeb a'r pandemig', a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020, yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru 'ddiffodd y mesurau yn Neddf Coronafeirws 2020 sy'n llacio dyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl ar unwaith', gan gyflwyno fy nhystiolaeth a fy ngwaith i ddiogelu hawliau pobl hŷn.

Wedi hynny, croesewais y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021 y byddai'r mesurau hyn yn cael eu hatal, gan ddileu'r pŵer i awdurdodau lleol gyfyngu ar hawliau pobl hŷn.

Diogelu a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal

"Mae fy nhad yn 92, mae fy mam yn 89 oed. Mae Dad yn gofyn pam nad oedd Joyce yn ddigon pwysig i gael prawf. Rydym wedi crio llawer ac rwy'n teimlo'n bersonol bod preswylwyr cartrefi gofal wedi'u haberthu."

Person hŷn gyda Mam yn byw mewn cartref gofal

O ystyried y risg benodol yr oedd pobl hŷn yn ei hwynebu yn sgil Covid - a ddangoswyd yn blaen gan y ffaith i gannoedd o bobl golli eu bywydau yn anffodus, a phrofodd llawer mwy o bobl ddirywiad sylweddol yn eu hiechyd a'u llesiant - roedd diogelu a chefnogi pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn ffocws arwyddocaol o fy ngwaith yn ystod y pandemig.

Cymerais gamau i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu clywed, yn ogystal â lleisiau staff a fu'n eu cefnogi ac y gallai cartrefi gofal gael mynediad at adnoddau a chymorth i gadw pobl hŷn yn ddiogel ac iach, ac nad oedd hawliau pobl hŷn yn cael eu cyfyngu wrth i rannau eraill o gymdeithas brofi mwy o ryddid.

Yr ymateb i gamau cynnar y pandemig

Yn ystod camau cynnar y pandemig, cododd pobl hŷn a'u teuluoedd bryderon sylweddol gyda mi am faterion a heriau sy'n wynebu cartrefi gofal yng Nghymru, a'r risgiau posibl i breswylwyr a staff.

Mewn ymateb i hyn, galwais am ystod o gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys:

- Sicrhau cyflenwad digonol a chyson o Gyfarpar Diogelu Personol hollbwysig (a deunyddiau eraill i reoli haint) i gartrefi gofal.
- Sicrhau bod profion ar gael i breswylwyr a staff.
- Sicrhau y gallai preswylwyr gael mynediad at driniaethau a gwasanaethau'r GIG y gallent fod eu hangen.
- Darparu cymorth ac arweiniad i gartrefi gofal, gan gynnwys adnoddau hyfforddiant i staff gofal.
- Darparu cyllid brys i gartrefi gofal, oherwydd y cynnydd mewn costau.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth am lefelau o haint a marwolaethau i hysbysu penderfyniadau am bolisïau a dyrannu adnoddau.

Er y gwnaed cynnydd mewn llawer o'r meysydd uchod, roedd polisi profi Llywodraeth Cymru yn eithrio preswylwyr a staff cartrefi gofal ar y dechrau, rhywbeth a oedd yn peri pryder mawr i mi, yn arbennig o ystyried y dystiolaeth gynyddol o'r risg bosibl o drosglwyddiad asymptomatig o Covid-19, a'r nifer gynyddol o achosion o Covid mewn cartrefi gofal.

Parheais i godi'r mater gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gwneud yr achos o blaid sicrhau bod profion ar gael i gartrefi gofal, a arweiniodd at nifer o newidiadau i'r polisi profi, yn fwyaf nodedig ym mis Mai 2020, pan gyhoeddwyd y byddai profion Covid ar gael i bobl hŷn ac i staff gofal ym mhob cartref gofal yng Nghymru.

Adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal

Wrth i'r sefyllfa drasig mewn cartrefi gofal ddod i'r amlwg, roeddwn yn pryderu nad oedd lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu clywed yn ddigonol, a oedd yn golygu bod gwybodaeth ac arbenigedd hanfodol yn aml ar goll pan oedd polisïau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud.

Holais bobl hŷn a oedd yn byw mewn cartrefi gofal, eu teuluoedd a'u ffrindiau a staff gofal ledled Cymru i rannu eu profiadau o'r pandemig a'r cyfyngiadau symud, yn ogystal â'u safbwyntiau ar y camau gweithredu angenrheidiol i ddiogelu a chefnogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal. Yn ogystal, gofynnais i bobl rannu enghreifftiau o gamau gweithredu ac arfer da a oedd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Ymatebodd mwy na 120 o bobl i rannu eu profiadau a'u gwybodaeth hanfodol, drwy holiadur ar-lein, a thros y ffôn, drwy lythyr ac e-bost. Trefnais sesiynau ymgysylltu hefyd gyda phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng ngogledd a de Cymru er mwyn i mi allu trafod eu profiadau gyda hwy'n uniongyrchol mewn mwy o fanylder.

Roedd y wybodaeth a rannwyd yn ffurfio sail fy adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu meysydd allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig a'r effaith ar bobl hŷn, gan gynnwys profi, gwybodaeth a chanllawiau, ymweliadau gan anwyliaid, yr effaith ar fywyd o ddydd i ddydd a'r effaith ar iechyd a llesiant. Cafodd dyfyniadau uniongyrchol gan bobl hŷn, aelodau eu teuluoedd a rheolwyr a staff cartrefi gofal am eu profiadau eu cynnwys drwy'r adroddiad.

Er y derbyniwyd rhai ymatebion cadarnhaol, yn arbennig enghreifftiau o ofal eithriadol a ddarparwyd gan staff gofal, canfyddais fod cartrefi gofal wedi wynebu ystod eang o broblemau a heriau, a oedd yn peri pryder, straen a gorbryder eithafol. Yn ogystal, roedd datgysylltiad arwyddocaol rhwng yr hyn a oedd yn cael ei addo ar lefel bolisi a'r hyn a oedd yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad, a arweiniodd at oedi annerbyniol cyn i rai cartrefi gofal dderbyn PPE hollbwysig a chael mynediad at brofion / canlyniadau profion.

Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd o'r farn na fu ffocws digonol ar ddiogelu a chefnogi pobl a oedd yn byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, a bod dealltwriaeth gyfyngedig yn aml ymhlith cyrff cyhoeddus am y polisïau a'r cymorth yr oedd cartrefi gofal eu hangen i gadw pobl hŷn yn ddiogel ac iach.

Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn nodi y gellid bod wedi osgoi llawer o'r materion a'r heriau a bwysleisiwyd, drwy waith cynllunio mwy effeithiol ac ymgysylltu gyda chartrefi gofal ar gam cynharach, a darparu gwybodaeth ac arweiniad ymarferol a chlir.

Galwais i'r profiadau yn yr adroddiad gael eu defnyddio i siapio'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod cartrefi gofal yn derbyn cefnogaeth a diogelwch gwell, ac i leisiau pobl hŷn, eu hanwyliaid a gweithwyr gofal cartref fod yn ganolog wrth lunio polisïau.

Yn ogystal, galwais am weithredu a gwelliannau ar unwaith ar draws ystod o feysydd allweddol:

- Ymgysylltiad ystyrlon gyda phreswylwyr cartrefi gofal, ffrindiau a gweithwyr cartrefi gofal.
- Galluogi ymweliadau diogel i gartrefi gofal.
- Galluogi ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, gan gynnwys arolygon o gartrefi gofal.
- Sicrhau y gallai cartrefi gofal gael mynediad at gymorth ariannol.

Ailadroddais hefyd fy ngalwad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu penodol ar gyfer cartrefi gofal, i ddarparu manylion o'r camau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd, a phryd y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

Cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal

Yn ogystal â darparu sicrwydd i bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, byddai cynllun gweithredu penodol yn caniatáu proses graffu adeiladol a chyfrifol o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Galwais i'r cynllun gweithredu gwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- Profi preswylwyr a staff cartrefi gofal.
- Cyflenwi PPE.
- Mynediad at wasanaethau gofal iechyd (gan gynnwys cymorth Meddygon Teulu a thriniaeth yn yr ysbyty).
- Mynediad at gymorth iechyd meddwl (gan gynnwys cymorth profedigaeth).
- Arweiniad a gwybodaeth i gartrefi gofal, pobl hŷn a'u teuluoedd a'u ffrindiau er mwyn galluogi ymweliadau diogel.
- Mesurau i alluogi ymweliadau diogel gan weithwyr cymdeithasol, eiriolwyr eraill ac arolygon gan Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Mynediad at hyfforddiant a chymorth parhaus gan gyfoedion i reolwyr a staff cartrefi gofal.
- Darparu cyfleusterau gofal / cyfleusterau cam-i-lawr er mwyn cefnogi camau rhyddhau diogel o'r ysbyty.
- Cymorth ariannol i gartrefi gofal i sicrhau cynaliadwyedd.

Croesewais gyhoeddiad cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar 30 Gorffennaf 2020, a oedd yn adlewyrchu ar y galwadau am weithredu a oedd wedi'u cynnwys yn fy adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal.

Galluogi ymweliadau diogel i gartrefi gofal

Pan ddechreuodd y pandemig, bu i lawer o gartrefi gau eu drysau i ymwelwyr mewn ymdrech i atal Covid rhag dod i mewn a pheryglu pobl hŷn. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod pobl hŷn a oedd yn byw mewn cartrefi gofal ledled Cymru yn methu allan ar ymweliadau wyneb yn wyneb hollbwysig gan anwyliaid, yn ogystal â chyfleoedd i adael y cartref gofal. Yn ogystal, ni allai llawer o weithwyr proffesiynol, er enghraifft gweithwyr iechyd proffesiynol neu weithwyr cymdeithasol ymweld â chartrefi.

Ar hyd y cyfnod clo cyntaf, galwais ar Lywodraeth Cymru i weithredu i alluogi ymweliadau diogel, a bûm yn ymgysylltu â darparwyr cartrefi gofal a sefydliadau allweddol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i nodi ffyrdd i alluogi i ymweliadau gael eu cynnal yn ddiogel.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau dilynol ynglŷn ag ymweliadau i gartrefi gofal, a oedd yn golygu y gallai llawer o bobl hŷn a'u teuluoedd weld ei gilydd eto yn ystod misoedd yr haf.

Fodd bynnag, oherwydd bod y mwyafrif o'r ymweliadau hyn wedi'u cynnal yn yr awyr agored, roeddwn yn bryderus y byddai pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu gwahanu eto oni fyddai camau'n cael eu cymryd i alluogi ymweliadau diogel y tu mewn i gartrefi gofal.

Felly, cyhoeddus bapur briffio, yn tynnu ar fy adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal ac ymgysylltiad pellach gyda phobl hŷn a'u teuluoedd, a oedd yn nodi pam fod galluogi ymweliadau diogel yn hollbwysig i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol pobl hŷn.

Yn y papur, galwais i'r risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ymweliadau gael eu hasesu ar sail unigol, gan ystyried y gwahaniaethau rhwng unigolion a'r anghenion a allai fod ganddynt a'r gwahaniaethau rhwng cartrefi gofal, oherwydd gallai'r rhain gael effaith sylweddol ar risgiau posibl.

Ochr yn ochr â hyn, roedd y papur hefyd yn nodi pam fod angen ystyried y risgiau i breswylwyr a staff o drosglwyddiad posibl Covid o ymweliadau yn erbyn y risg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal os oedd eu hiechyd corfforol a meddyliol wedi dirywio o ganlyniad i gael eu gwahanu am gyfnod hir oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau.

Yn ogystal, pwysleisiais y camau gweithredu y gellid eu cymryd i sicrhau agwedd fwy galluogol ac i ymweliadau gael eu cynnal yn ddiogel, gan gynnwys:

- Cymorth gwell i gartrefi gofal a staff.
- Mwy o brofion.
- Newidiadau i amgylcheddau cartrefi gofal.
- Cydnabod aelodau teulu fel 'ymwelwyr dynodedig' a darparu mynediad iddynt at brofion, PPE a hyfforddiant.

Ar ôl cyhoeddi'r papur briffio, ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyhoeddwyd y byddai dau brosiect peilot yn cael eu lansio i gefnogi ymweliadau diogel. Roedd y cynllun peilot cyntaf yn cyflwyno'r defnydd o brofion llif unffordd i brofi ymwelwyr, ac roedd yr ail yn darparu 'podiau ymweld' i gartrefi gofal i greu gofod

ychwanegol er mwyn gallu cynnal ymweliadau yn ddiogel. Ehangwyd ar y cynlluniau hyn yn dilyn y cynlluniau peilot cychwynnol.

Ar ôl gwahardd ymweliadau i gartrefi gofal unwaith eto ym mis Ionawr 2021, fel rhan o'r cyfyngiadau symud cenedlaethol yng Nghymru, galwais i ymweliadau diogel i gartrefi gofal gael eu cynnal er gwaethaf y cyfyngiadau 'Lefel 4', yn arbennig o ystyried y diogelwch y byddai'r brechlyn coronafeirws yn ei ddarparu i breswylwyr cartrefi gofal. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror bod hyn yn cael ei archwilio, a chadarnhaodd cyhoeddiad pellach y gallai ymweliadau y tu mewn i gartrefi gofal ail-ddechrau eto ym mis Mawrth 2021.

Fe barheais i godi'r mater o ymweliadau i gartrefi gofal yn ystod cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i drafod sut y gellid gwneud newidiadau pellach i drefniadau ymweld, a fyddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd ac yn cynnig mwy o ryddid i bobl hŷn a oedd yn byw mewn cartrefi gofal, er enghraifft diddymu'r cyfyngiadau o ran y nifer a allai ymweld, galluogi ymweliadau y tu allan i'r cartref gofal a sicrhau nad oedd mesurau diogelwch, pan oedd achosion, yn anghymesur.

Hefyd, fe barheais i fonitro'r canllawiau a gyflwynwyd, i sicrhau bod yr ymweliadau'n cael eu cynnal yn unol â'r polisi, a oedd yn cynnwys darparu cymorth i bobl hŷn a'u teuluoedd a oedd yn profi anawsterau yn ymweld â'u hanwyliaid.

Sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd a gofal

“Rydym i gyd yn teimlo, os byddwn yn mynd yn sâl fel pobl hŷn, a fyddwn yn derbyn y driniaeth rydym yn ei haeddu, neu a fyddwn yn cael ein hystyried fel pobl ‘a fydd yn marw’n fuan’, ac a fydd hynny’n arwain at driniaeth wael.”

Digwyddiad ymgysylltu â phobl hŷn

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ac roedd y materion a oedd yn gysylltiedig â’r mathau hyn o wasanaethau yn nodwedd allweddol ar draws fy ngwaith yn gyffredinol.

Felly, cymerais gamau gweithredu, wedi’u harwain gan y profiadau a rannwyd gan bobl hŷn yn y sesiynau ymgysylltu a’r rhai a rannwyd gyda fy nhîm cyngor a chymorth, i sicrhau nad oedd pobl hŷn yn cael eu heithrio o’r gwasanaethau hynny a bod gwaith cynllunio a phenderfyniadau yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn.

Cyflwyno’r Brechlyn

O gamau cynllunio cyflwyno’r brechlyn, ymgysylltodd fy nhîm a minnau’n aml â Llywodraeth Cymru, a chefais gyfarfodydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, i sicrhau y byddai camau’n cael eu cymryd i fynd i’r afael â phroblemau a rhwystrau posibl a allai atal pobl hŷn rhag cael eu brechu.

Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chadeirydd Bwrdd y Rhaglen Brechlynnau, yn ogystal â chymryd rhan ym Mwrdd y Rhaglen Brechlynnau (a ailenwyd wedi hynny yn Fforwm Rhanddeiliaid y Rhaglen Brechlynnau), a ddarparodd gyfleoedd parhaus i rannu unrhyw bryderon a phroblemau.

Darperais sawl papur briffio hefyd i Gadeirydd Bwrdd y Rhaglen Brechlynnau (a rannwyd hefyd gyda’r Dirprwy Weinidog), a oedd yn nodi’r materion a’r pryderon a gododd pobl hŷn gyda mi drwy gysylltu â fy nhîm cyngor a chymorth, yn ogystal â’r rhai a rannwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill, er enghraifft Cadeiryddion sefydliadau pobl hŷn, er mwyn gallu cymryd camau i’w datrys.

Er enghraifft, un mater allweddol a godais oedd yr ansicrwydd sylweddol ymhlith pobl hŷn ynglŷn â beth fyddai’r broses frechu yn ei chynnwys. Roedd hyn yn cynnwys ymholiadau ynglŷn â phwy fyddai’n cysylltu â hwy gyda manylion eu hapwyntiad, sut y cysylltir â hwy, a phryd, yn gyffredinol, y gallant ddisgwyl i rywun gysylltu â hwy.

Yn dilyn hyn, dosbarthodd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru lythyr i bob cartref yng Nghymru, a oedd yn darparu gwybodaeth am y broses frechu, a oedd yn adlewyrchu’r ymholiadau uchod. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Frechu hefyd, a oedd yn nodi cerrig milltir allweddol ar gyfer darparu’r brechlyn Covid-19 i grwpiau blaenoriaeth.

Yn yr un modd, yn dilyn pryderon a godais ynglŷn â sgamiau posibl a oedd yn gysylltiedig â'r brechlyn Covid, dosbarthwyd gwybodaeth hollbwysig am sut i adnabod sgamiau a'r pethau i gadw golwg amdanynt gan gyrff cyhoeddus a sefydliadu eraill ledled Cymru. Yn ogystal, rhannodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y wybodaeth hon wrth gyflwyno Briff dyddiol Llywodraeth Cymru.

Fe barheais i fonitro cyflwyniad y brechlyn yn agos hefyd, gan adolygu'r holl ddata oedd ar gael yn ddyddiol, a chodi pryderon ar sawl achlysur pan fethwyd targedau.

Yn ystod camau cynnar y rhaglen frechu, roedd gennyf bryderon penodol ynglŷn â chyflymder cyflwyno'r brechlyn i bobl hŷn a oedd yn byw mewn cartrefi gofal, fel y nodwyd gan y data a gyhoeddwyd a gofynnais am sicrwydd y byddai materion yn cael eu datrys yn gyflym. O ganlyniad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad data ac, ar ôl nodi nad oedd y data'n gywir, cymerwyd camau i unioni hyn.

O ganlyniad i hyn cynyddodd cyflymder ac effeithiolrwydd cyflwyno'r brechlyn yn sylweddol, rhywbeth yr oeddwn yn ei groesawu'n gryf.

Cefnogi pobl hŷn sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin

"Am yr ychydig fisoedd cyntaf...nid oedd gen i'r egni neu nid oeddwn yn gwybod beth i'w wneud neu at bwy i droi. Nid oeddwn yn gwybod a oedd unrhyw help ar gael."

Goroeswr hŷn camdriniaeth

Roedd atal camdriniaeth pobl hŷn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i mi ar hyd y pandemig, yn benodol oherwydd roedd pryderon arwyddocaol ynglŷn â'r risg uwch i bobl hŷn o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu gael eu targedu gan droseddwyr, o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.

Arweiniais waith amrywiol gyda chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i sicrhau y gall pobl hŷn sy'n profi, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Sefydlu'r Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin

O ystyried y risgiau uwch a brofir gan bobl hŷn a oedd yn profi, neu a oedd mewn perygl o brofi camdriniaeth yn ystod y pandemig, sefydlais Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin, gan ddod â mwy na 30 o sefydliadau allweddol ynghyd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, heddluoedd, Cymorth i Ferched Cymru, Rhwydwaith Diogelu'r GIG ac Age Cymru.

Ar hyd y pandemig, bu'r grŵp yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth hollbwysig i bobl hŷn a'u teulu a'u ffrindiau, ynglŷn â sut i adnabod camdriniaeth neu droseddau, y ffyrdd y gall pobl gadw eu hunain a'u hanwyliaid yn ddiogel ac wedi'u diogelu, a lle gallant fynd i gael help a chymorth.

Yn ogystal, bu'r grŵp yn codi ymwybyddiaeth o'r rôl y gall y cyhoedd ei chwarae yn diogelu pobl hŷn, yn eu hannog i adrodd unrhyw bryderon am ddiogelwch neu lesiant person hŷn.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Cyhoeddi datganiadau ar y cyd ar faterion allweddol, er enghraifft lle i fynd i gael cymorth yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud, y rôl y gall pawb ei chwarae yn diogelu pobl hŷn rhag camdriniaeth, sgamiau Covid a chadw'n ddiogel ar-lein.
- Rhannu gwybodaeth allweddol rhwng aelodau, y gellir ei dosbarthu ymhellach i lawr i lefel gymunedol.
- Datblygu adnoddau helaeth y cyfryngau cymdeithasol yn pwysleisio gwybodaeth a negeseuon allweddol y gellir ei rhannu'n rhwydd.
- Cyhoeddi Pecyn Gwybodaeth Covid-19.
- Datblygu taflen wybodaeth wedi'i hanelu at bobl hŷn.

Gallai'r grŵp gyrraedd miloedd o gysylltiadau mewn cymunedau ledled Cymru drwy'r rhwydweithiau eang o'i aelodau, gan sicrhau bod ganddynt (a'u bod yn gallu ei rhannu'n ehangach fyth) y wybodaeth, canllawiau ac adnoddau diweddaraf ynglŷn â chadw pobl hŷn yn ddiogel, yn ogystal â gwybodaeth am yr help a'r cymorth sydd ar gael ledled Cymru.

Er mwyn llywio a chefnogi gwaith y Grŵp Gweithredu, a sicrhau dull strategol ar gyfer mynd i'r afael â materion a gododd yn sgil y pandemig, yn ogystal â materion sefydledig a oedd yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu, sefydlais Grŵp Llywio hefyd, a oedd yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Gweithredu, ynghyd â phobl hŷn a phobl a oedd wedi goroesi camdriniaeth.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd y Grŵp Llywio ddogfen strategaeth, a oedd yn nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol a fyddai'n cael eu datblygu gan y Grŵp Gweithredu. Roedd y grŵp yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol – gwella gwasanaethau a chymorth a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gamdriniaeth a throseddau yn erbyn pobl hŷn – roedd y strategaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mapio'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n profi neu sy'n wynebu risg o gamdriniaeth, nodi bylchau ac arfer da er mwyn ysgogi newid.
- Sicrhau bod data a thystiolaeth am gamdriniaeth yn cynnwys pobl hŷn drwy ddiddymu'r uchafswm oedran o 74 oed ar ddata troseddau Cymru a Lloegr.
- Galluogi a grymuso pobl hŷn i deimlo'n hyderus i rannu eu profiadau o gamdriniaeth ac annog eraill i rannu eu profiadau.
- Datblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.

Rwyf wedi cyflwyno ystod o gamau gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau hyn ac wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cynllun gweithredu cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn, gan weithio gyda hwy i sicrhau bod y camau gweithredu sydd yn y cynllun yn mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon rwyf wedi'u mynegi. Mae'r Grŵp Gweithredu'n parhau i gwrdd bob deufis i gefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig a strategol er mwyn datblygu'r camau gweithredu i atal cam-drin pobl hŷn a gwella'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Pecyn Gwybodaeth a thaflen gwybodaeth Covid-19 i bobl hŷn

Lluniais a chyhoeddais becyn gwybodaeth i ddarparu gwybodaeth hollbwysig i bobl hŷn am yr help a'r cymorth sydd ar gael yn ystod y cyfnodau cyfyngiadau symud.

Roedd y pecyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i adnabod yr arwyddion y gallai rhywun fod yn profi neu eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin, yn ogystal â gwybodaeth am sut y gall pobl hŷn ddiogelu eu hunain rhag troseddau a sgamiau, ynghyd â manylion cyswllt timau diogelu awdurdodau lleol er mwyn codi unrhyw bryderon a manylion sefydliadau eraill a allai ddarparu help a chymorth, a oedd yn cynnwys fy swyddfa.

Er mwyn darparu gwybodaeth bellach i bobl hŷn a allai fod yn profi neu mewn perygl o gamdriniaeth a'u cynorthwyo i gael yr help y gallai fod ei angen arnynt, rwyf hefyd wedi cynhyrchu taflen wybodaeth, sy'n darparu manylion am lle y gall pobl fynd i gael help a chymorth, yr arwyddion o gam-drin y dylent fod yn edrych allan amdanynt, a beth i'w wneud os ydynt yn poeni am rywun arall.

Wrth ddarparu adborth ar y daflen, croesawodd pobl hŷn a rhanddeiliaid yr iaith glir a hygyrch, yn ogystal â'r astudiaethau achos sy'n seiliedig ar brofiadau pobl hŷn o fyw gyda chamdriniaeth.

Hyd yma, mae mwy na 22,500 o gopïau o'r daflen wedi'u dosbarthu ledled Cymru, drwy'r heddlu, cartrefi gofal, sefydliadau'r trydydd sector, lleoliadau'r GIG, fferyllfeydd a rhanddeiliaid eraill.

Siapio Adferiad Cymru

"Mae cymaint o bobl yn teimlo wedi'u datgysylltu...Er y nifer o weithiau yr esboniwyd gwybodaeth sylfaenol hyd yn oed i fy ngrŵp ar ddefnyddio llechen a ffonau, nid ydynt yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio pan fyddant ar eu pen eu hunain. Mae hyn wrth gwrs yn gwneud i lawer deimlo eu bod yn profi gwahaniaethu am nad ydynt yn derbyn gwybodaeth hollbwysig."

Person hŷn mewn digwyddiad ymgysylltu

Gadael Neb ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad sy'n ystyriol o oedran

Gyda thrafodaeth gynyddol am adferiad posibl Cymru yn dilyn y pandemig, cyhoeddais fy adroddiad 'Gadael Neb Ar Ôl' ym mis Awst 2020, a oedd yn galw am gamau gweithredu uniongyrchol a hirdymor gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau nad oedd pobl hŷn yn cael eu 'gadael ar ôl' wrth i Gymru symud ymlaen o'r pandemig.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn, a oedd wedi rhannu eu profiadau gyda mi ar hyd y pandemig, yn ogystal â gwybodaeth, tystiolaeth a data a gasglwyd drwy ymgysylltiad parhaus gyda chyrff a sefydliadau cyhoeddus a oedd yn gweithio gydag ac ar ran pobl hŷn.

Yn yr adroddiad, cyflwynais y camau gweithredu ymarferol yr oedd eu hangen mewn nifer o feysydd allweddol – gan gynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, yr economi a'n cymunedau – er mwyn mynd i'r afael â'r materion a grëwyd gan y pandemig, yn ogystal â'r materion strwythurol ehangach sy'n effeithio ar bobl hŷn, a waethygwyd gan Covid. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys:

- Diddymu adrannau o'r Ddeddf Coronafeirws a allai gyfyngu hawliau pobl hŷn i ofal a chymorth.
- Sefydlu rhaglen adsefydlu ar gyfer pobl hŷn sydd wedi'u heffeithio'n gorfforol a/neu'n feddyliol gan Covid-19.
- Sefydlu rhaglen benodol i gefnogi gweithwyr hŷn i barhau yn eu gwaith neu i ailhyfforddi os ydynt yn wynebu colli eu swydd.
- Buddsoddi mewn ymgyrch wedi'i thargedu a chymorth i gynyddu'r nifer o bobl sy'n hawlio'r Credyd Pensiwn.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra i bobl hŷn i'w helpu i fynd ar-lein, gan gynnwys darparu dyfeisiau hawdd eu defnyddio gyda mynediad i'r rhyngrwyd.

Rhannais y dystiolaeth a gasglwyd yn fy adroddiad gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau y byddai lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn siapio cynlluniau a phenderfyniadau. Rhannwyd fy nghanfyddiadau hefyd mewn digwyddiad gweminar mawr a fynychwyd gan fwy na 350 o ddirprwyon yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i ystyried sut y dylid symud fy ngalwadau ymlaen.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, croesewais y cynnydd a wnaed yn erbyn llawer o'm galwadau i weithredu, a oedd yn cynnwys:

- Cyhoeddi ac adrodd yn erbyn cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru.
- Gohirio'r mesurau yn y Ddeddf Coronafeirws a oedd yn peryglu hawliau pobl hŷn i ofal cymdeithasol.
- Lansio'r ymgyrch 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi' gan Lywodraeth Cymru i annog pobl i hawlio Credyd Pensiwn a hawliadau ariannol eraill.
- Diddymu'r uchafswm oedran o 74 oed ar gyfer casglu data ar gyfer Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr.
- Cyhoeddi Agenda'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol, a oedd yn pwysleisio fy ngalwadau i weithredu yn yr adroddiad 'carreg filltir' 'Gadael Neb ar Ôl'.

Parheais i weithio hefyd gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru i sicrhau bod cynnydd pellach yn cael ei wneud i gyflawni'r camau gweithredu y galwais amdanynt.

Hefyd, yn ogystal â derbyn croeso eang gan bobl hŷn a rhanddeiliaid, defnyddiwyd yr adroddiad mewn nifer o ffyrdd gan ystod o sefydliadau i gefnogi eu gwaith a llywio eu blaengynlluniau.

Cadw'n iach y gaeaf hwn: Canllaw gwybodaeth cynghorion da ar gyfer dechrau mynd allan eto

Fe arweiniais y gwaith o ddatblygu llyfryn ar gyfer pobl hŷn – mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Age Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddarparu gwybodaeth am ffyrdd o gadw'n iach yn ystod y gaeaf a chynghorion da ar ddechrau mynd allan eto i'r gymuned yn dilyn cyfyngiadau symud y cyfnodau clo.

Roedd y llyfryn yn cwmpasu ystod o bynciau iechyd, gan gynnwys cadw'n actif a bwyta'n dda, yn ogystal â materion pwysig eraill er enghraifft troseddau ariannol a phrofedigaeth. Roedd hefyd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer ystod eang o sefydliadau a allai ddarparu help a chymorth i bobl hŷn.

Arweiniodd Llywodraeth Cymru y gwaith o ddosbarthu'r daflen, gan weithio gyda phartneriaid ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys canolfannau brechu.

Lleihau allgáu digidol ymhlith pobl hŷn

Ar hyd y pandemig, profodd llawer o bobl hŷn anhawster i gael mynediad at y wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt, yn arbennig y rhai a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Pwysleisiodd y pandemig raniad digidol amlwg iawn yng Nghymru a'r effaith sylweddol y gall allgáu digidol ei chael ar fywydau pobl, rhywbeth sy'n peri pryder penodol o ystyried bod llawer o gyrff cyhoeddus wedi cyflymu cyflwyniad a defnydd o wasanaethau digidol o ganlyniad i Covid-19.

O ganlyniad i hyn, galwais am gamau gweithredu ar unwaith ac yn y tymor hwy i leihau allgáu digidol ymhlith pobl hŷn yn fy adroddiad Gadael Neb ar Ôl:

- Archwiliadau ar lefel gymunedol i adnabod pobl hŷn a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn ystod y pandemig.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl hŷn a nodwyd i fynd ar-lein, gan gynnwys darparu mynediad at y rhyngrwyd a/neu ddyfeisiau hawdd eu defnyddio pan oedd angen hynny.
- Sefydlu hawl i seilwaith digidol hawl i gysylltedd digidol fel gwasanaeth hollbwysig y mae angen i'r boblogaeth gyfan gael mynediad fforddiadwy ato.
- Cyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer cael mynediad i'r rhyngrwyd a gweithio tuag at ddarparu mynediad cyffredinol am ddim i'r rhyngrwyd.
- Gwaith allgymorth gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gefnogi pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau digidol.

Wrth adeiladu ar y gwaith hwn, cyhoeddais Ganllawiau ffurfiol hefyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ym mis Tachwedd 2021, a oedd yn nodi'r mathau o gamau gweithredu y dylent fod yn eu cymryd i sicrhau bod pobl hŷn nad oeddynt ar-lein yn parhau i allu cael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, a chynorthwyo pobl i fynd ar-lein. Yn ogystal â hyn, cyhoeddais lyfryn gwybodaeth hefyd i helpu pobl hŷn i ddeall yn well yr hawliau sydd gennym i gyd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Gydraddoldeb, i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n ein gweddu ni. Hyd yma, mae mwy na 10,000 o gopïau o'r llyfryn hwn wedi'u dosbarthu i bobl hŷn a sefydliadau ledled Cymru.

Y tu hwnt i'r pandemig: Adeiladu ar bartneriaethau a mentrau newydd

Fel yr amlygwyd uchod, yn ystod y pandemig creais bartneriaethau newydd a sefydlu grwpiau newydd i helpu i ddosbarthu gwybodaeth allweddol i bobl hŷn, rhannu gwybodaeth a thystiolaeth am brofiadau pobl hŷn, a chodi materion gydag un llais pwerus. Bu fy nhîm a minnau'n gweithio mewn partneriaeth hefyd gydag ystod o sefydliadau rhanddeiliaid eraill i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau ar ystod o faterion ar lefel genedlaethol a lleol.

O ystyried effaith gadarnhaol y partneriaethau hyn, a'r cyfleoedd a ddarparwyd ganddynt yn nhermau estyn allan i bobl hŷn, ysgogi newid a hybu arferion da, roeddwn yn awyddus i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig wrth i ni wynebu'r heriau a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig, yn ogystal â heriau newydd er enghraifft yr argyfwng costau byw.

Nodir enghreifftiau o'r gwaith partneriaeth allweddol a gynhaliwyd ers y pandemig, isod:

Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin

Mae gweithio gydag aelodau o fy Ngrŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin wedi helpu gyda fy ymchwil i argaeledd cymorth i bobl hŷn sy'n profi camdriniaeth, a phrofiadau dynion hŷn, yn ogystal â gwaith ehangach sy'n dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth, hyrwyddo arfer da, gwella hyfforddiant i staff a chynyddu gwybodaeth ymhlith ymarferwyr a'r cyhoedd.

Mae hyn wedi arwain at gamau arwyddocaol yn nhermau Cynllun Gweithredu Cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru i Atal Cam-drin Pobl Hŷn, a mwy o ffocws ar bobl hŷn yn strategaeth ddiweddaredig Trais yn Erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), gan gynnwys llif gwaith sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn.

Hawliau'r Grŵp Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal

Wedi'i sefydlu gan y Comisiynydd ym mis Ebrill 2021, mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd sefydliadau o bob rhan o'r DU sy'n cydweithio i atgyfnerthu hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a sicrhau bod pobl yn gwybod ac yn deall eu hawliau a'u bod yn gallu eu harfer.

Yn ogystal â chefnogi datblygiad Canllawiau Hawliau Gofal y Comisiynydd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, mae'r grŵp hefyd yn gweithio i gynyddu gwybodaeth am hawliau mewn cartrefi gofal a helpu i sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori yn ymarferol, a hefyd nodi ffyrdd i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch deiliadaeth a mynediad at eiriolaeth annibynnol.

Rhwydwaith y DU

Rwyf wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd a gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol pobl hŷn ledled y DU i archwilio materion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan lywodraethau i gefnogi pobl hŷn.

Mae hyn wedi cynnwys ysgrifennu at Weinidogion y Llywodraeth neu gyhoeddi datganiadau ar y cyd ar ystod o faterion, gan gynnwys pwysigrwydd sicrhau bod hawliau wrth wraidd Ymchwiliad Cyhoeddus y DU i Covid-19, yr angen am fwy o gymorth ariannol i bobl hŷn yn ystod yr argyfwng costau byw, ac effaith y bwriad i gau swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd rheilffyrdd ar fynediad pobl hŷn at drafnidiaeth gyhoeddus a'u gallu i deithio.

Gweithio gyda phobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Ar ôl sefydlu Grŵp Cynghori i gefnogi fy ngwaith i archwilio profiadau byw pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn 2021, darparais gymorth i 14 o sefydliadau ac unigolion â chysylltiadau cymunedol cryf ledled Cymru i gynnal trafodaethau gyda phobl hŷn o ystod eang o gymunedau a oedd yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys cymunedau ffoaduriaid a Sipsiwn Teithiol.

Bydd clywed y lleisiau hyn yn fy ngalluogi i nodi materion allweddol sy'n effeithio ar sawl grŵp, yn ogystal â'r heriau sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn o gymunedau penodol. Byddaf yn defnyddio fy nghanfyddiadau i gefnogi gwaith partneriaeth pellach gyda phobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau, i ysgogi newid a gwelliannau.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill

Rwyf hefyd wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill yng Nghymru i fynd i'r afael â nifer o faterion a grëwyd neu a ddwysawyd gan y pandemig, gan gynnwys:

- Archwilio'r ffyrdd y gellir gwella'r broses a'r cyfathrebu ynglŷn â hysbysiadau Ni Cheisir Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) i sicrhau bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn gallu cyfranogi ac yr ymgynghorir â hwy'n briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau,
- Dylanwadu ar ddatblygiad Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio i sicrhau ffocws cryf ar wneud Cymru yn wlad oed gyfeillgar a'n galluogi i gyd i heneiddio'n dda.
- Sicrhau camau gweithredu gan dîm Trais yn Erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), i greu ffrwd waith benodedig sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn a datblygu'r Cynllun Gweithredu newydd i Atal Cam-drin Pobl Hŷn, y cyntaf o'i fath yn y DU.
- Cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn nodi'r mathau o gamau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod pobl hŷn nad ydynt ar-lein yn gallu cael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a'u bod yn cael eu cefnogi i fynd ar-lein os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Dylanwadu ar ddatblygiad deddfwriaeth hawliau dynol i sicrhau ffocws digonol ar bobl hŷn a'u hawliau.

For further information about the Commissioner's work on behalf of older people during the pandemic, visit:

www.olderpeople.wales

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales